# Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru: Cynnig ar gyfer Monitro a Werthuso

Mae gweithgareddau monitro a gwerthuso sy’n gadarn ac yn effeithiol yn hollbwysig wrth gyflawni pob polisi a rhaglen. Maent yn hanfodol ar gyfer polisïau datblygu rhanbarthol, ac mae’n bosibl dangos hynny mewn dwy ffordd: 1) maent yn darparu data parhaus ffurfiannol am y broses o gyflawni gwahanol fathau o ymyriadau, a chynnydd yr ymyriadau hynny,[1] a 2) maent yn darparu atebolrwydd ac yn asesu a yw cronfeydd buddsoddi rhanbarthol yn cael eu gwario mewn ffordd sy’n golygu bod unrhyw weithgaredd a ariennir yn sicrhau’r canlyniadau priodol.

Ond, mae’n bwysig cydnabod y gwahaniaeth rhwng monitro a gwerthuso fel dau weithgaredd ar wahân, ond sy’n ategu ei gilydd.

Yng nghyd-destun buddsoddi rhanbarthol, mae monitro’n gallu cael ei ystyried fel yr arfer parhaus o gasglu, cofnodi, casglu, dilysu a rhannu data, gan nodi beth mae ymyriad a ariennir yn ei gyflawni. Dylid gallu dadansoddi’r data hyn ar unrhyw gam ym mhroses yr ymyriad er mwyn deall beth sy’n cael ei gyflawni, ymhle, a pha gynnydd sy’n cael ei wneud yn erbyn dangosyddion penodol.

Yng nghyd-destun buddsoddi rhanbarthol, ystyr gwerthuso yw’r broses wrthrychol o ddeall sut mae ymyriad (ar raddfa benodol) yn cael ei roi ar waith/wedi cael ei roi ar waith, beth oedd effeithiau'r ymyriad, ar bwy yr oedd wedi effeithio, sut a pham. Dylai gweithgareddau gwerthuso hefyd ystyried effeithiau hirdymor ymyriad. Yn hyn o beth, dylai hefyd fod yn broses amserol, er mwyn rhoi adborth pendant i randdeiliaid ar bob lefel ynghylch a yw ymyriad yn sicrhau’r canlyniadau priodol. Yn bwysicach na hynny o bosibl, dylai gwerthusiad ddweud pryd a pham nad yw ymyriadau’n cyflawni’r hyn roeddent i fod i’w gyflawni er mwyn i wersi gael eu dysgu o fewn oes yr ymyriad, ac er mwyn cynllunio ymyriadau yn y dyfodol a’u gweithredu.

Er mwyn gwella dealltwriaeth, mae angen geirfa a therminoleg gyffredin ar gyfer y system newydd, a'r rheini’n briodol ac yn gymesur i bob lefel yn y system. Mae angen rhesymeg glir ac eglur ar bob lefel ar gyfer y gofynion casglu data ac adrodd am ddata yn y system newydd. Mae profiad blaenorol o gyflawni ymyriadau a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn awgrymu nad yw’r gofynion monitro a gwerthuso yn ddigon clir ar lefel y prosiect – hynny yw, mae’n bosibl bod prif bwrpas pob elfen wedi achosi dryswch o ran deall y rhesymau dros adrodd am ddata.

Yn y system bresennol, mae’r prosesau o adrodd am ddata ‘archwilio’ a data ‘monitro a gwerthuso’ wedi cael eu hystyried yn debyg iawn i’w gilydd, gyda data monitro yn gorfod bod o safon ddigon da i gael eu harchwilio. Argymhellir bod angen gwahaniaethu’n glir rhwng data monitro amserol, y gellir eu defnyddio i adrodd yn barhaus am y cynnydd, a data sydd o ansawdd digon da i gael eu harchwilio, sy’n gofyn am fwy o amser er mwyn gwirio a dilysu ar sawl lefel.

[1] O ystyried natur amrywiol y cyllid, mae ‘Ymyriad’ yn y fan yma yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at weithgareddau ar bob graddfa – y rhaglen genedlaethol yn ogystal â pholisïau rhanbarthol a phrosiectau unigol sy’n cael eu cyflwyno’n lleol.

Cynigir y dylai ‘Egwyddorion cyffredinol Fframwaith monitro a gwerthuso buddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol’ ddylanwadu ar benderfyniadau, disgwyliadau a gofynion sylfaenol gweithgareddau monitro a gwerthuso, sef:

- Sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei chyflwyno am berfformiad y system buddsoddi rhanbarthol ar lefel genedlaethol, ranbarthol, thematig ac ar lefel prosiectau unigol
- Sicrhau cydbwysedd rhwng atebolrwydd a dysgu ffurfiannol
- Pan fo’n briodol, mabwysiadu dangosyddion y gellir eu defnyddio i gymharu ardaloedd daearyddol, ac sy’n cyd-fynd ag amcanion strategol Llywodraeth Cymru
- Hybu’r defnydd o ddulliau gwerthuso o’r safon uchaf pan fo’n bosibl
- Hybu’r defnydd o dystiolaeth a dadansoddiad drwy gydol y cylch polisi
- Bod yn gymesur
- Ystyried ystod mor eang â phosibl o ganlyniadau, o fewn cyfyngiadau o ran adnoddau ac ymarferoldeb methodolegol
- Sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau o ran monitro a gwerthuso a, hefyd, yn deall sut mae eu gwaith yn cyfrannu at nodau cyffredinol y fframwaith monitro a gwerthuso
- Sicrhau bod system o gymorth ac arweiniad yn cefnogi’r gweithgareddau, a honno’n system sy’n galluogi pawb i gyflawni eu cyfrifoldebau’n effeithiol
- Sicrhau bod canfyddiadau’r gwerthusiadau’n cael eu cyhoeddi’n brydlon a’u bod ar gael yn hwylus, yn cydnabod y partneriaid perthnasol, ac yn cael eu rhannu’n eang â phartïon sydd â diddordeb at ddibenion ffurfiannol, er mwyn dylanwadu ar y gwaith o gynllunio prosiectau yn y dyfodol.

**Ymrwymiad i fonitro a gwerthuso cyllid**

Yn ôl y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), mae tanfuddsoddi mewn prosesau monitro a gwerthuso yn un o’r prif faglau i’w hosgoi o ran polisïau datblygu rhanbarthol[2]. Mae tanfuddsoddi mewn prosesau gwerthuso wedi bod yn broblem gyda chronfeydd datblygu rhanbarthol a lleol mewn lleoedd eraill, ac mae hynny wedi arwain at broblemau o ran atebolrwydd a diffyg dealltwriaeth o effeithiolrwydd cymharol gwahanol ymyriadau[3].

O dan drefniadau cyllid yr UE, mae gweithgareddau monitro a gwerthuso wedi cael eu hariannu drwy gyllidebau prosiectau a Chymorth Technegol. Mae hyn wedi helpu i sefydlu ac ategu gwaith monitro a gwerthuso fel gweithgaredd prif ffrwd yn Llywodraeth Cymru, ac mewn sefydliadau eraill sy’n cael cyllid gan yr UE. Mae hyn wedi cael ei nodi ar draws aelod-wladwriaethau’r UE[4].

Canfu’r ymarfer ymgysylltu, Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit, fod cefnogaeth helaeth i gryfhau’r systemau monitro a gwerthuso yn y dyfodol (a’u

[2] OECD (2018) *Rethinking Regional Development Policy-making*
[3] O ran y Gronfa Twf Lleol a Phartneriaethau Menter Lleol – NAO (2019) *Local Enterprise Partnerships: An update on progress*; Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin (2019) *Local Enterprise Partnerships: Progress review*
[4] Polevari et al (2015)

gwneud yn fwy cymesur hefyd)[5]. Cafodd y teimladau hynny eu pwysleisio hefyd yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol i fuddsoddi rhanbarthol ar ôl Brexit[6].

Mae'n cael ei gydnabod yn eang ei bod hi'n hollbwysig sicrhau bod gan system buddsoddi rhanbarthol ddigon o gapasiti ar bob lefel[7]. Mae sicrhau bod cyllid Buddsoddi Rhanbarthol yn y dyfodol yn cynnig digon o gyllid ar gyfer gweithgareddau monitro a gwerthuso yn gwbl allweddol a dylid ymrwymo i hynny, er mwyn sicrhau bod ymyriadau'n gallu cael eu cynllunio a'u gweithredu ar sail tystiolaeth gadarn o'r hyn sydd wedi bod yn llwyddiannus, gan roi cyfle i ddulliau newydd gael eu treialu hefyd.

Mae gwariant ar brosesau monitro a gwerthuso yn gallu cynnwys pob math o gostau: cost systemau addas i sicrhau bod data monitro cadarn yn cael eu casglu, cyllidebau ar gyfer gwerthusiadau ffurfiol effeithiol, a datblygu capasiti sefydliadau i fonitro a gwerthuso drwy sicrhau bod ganddynt ddigon o staff sydd â'r sgiliau priodol i gyflawni gweithgareddau monitro a gwerthuso effeithiol ar bob lefel. Byddai sicrhau mwy o gapasiti ac adnoddau pwrpasol ar gyfer gwerthuso a monitro ar draws y system yn galluogi rheolwyr prosiectau a gweinyddwyr cyllido eraill i ganolbwyntio ar gyflawni, a gallai arwain at arbedion effeithlonrwydd yn y tymor hir.

Rydym ni'n cynnig bod cyrff rhanbarthol yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gynnal eu gweithgareddau monitro a gwerthuso priodol eu hunain. Felly, bydd meithrin capasiti ar lefel ranbarthol ac ar lefel leol yn bwysig dros ben.

### Y strwythur a gynigir ar gyfer Monitro a Gwerthuso

Rhagwelir y bydd y system buddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol yn cynnwys rhaglenni strategol ar lefel Cymru gyfan, yn ogystal â rhaglenni a gweithgareddau yn y rhanbarthau ac yn lleol, gyda phob un ohonynt yn cyflawni pob math o brosiectau unigol. Mae gwneud penderfyniadau cyllid ar lefel ranbarthol yn cyd-fynd ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hybu mwy o dryloywder o ran prosesau llywodraethu, perfformiad a democratiaeth leol a ranbarthol, fel y nodir yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

Rydym ni'n cynnig y dylid datblygu system gydgysylltiedig a chydweithredol o weithgareddau monitro a gwerthuso, ar lefel genedlaethol ac ar lefel ranbarthol. Hefyd, dylid cyflwyno dull cymesur sy'n cynnwys gweithgareddau ar y lefel leol, gyda gweithgareddau datblygu lleol dan arweiniad y gymuned yn rhan o hynny[8].

**Ar lefel Llywodraeth Cymru** – Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, byddai angen tîm o ddadansoddwyr ac ymchwilwyr proffesiynol ar Lywodraeth Cymru, a'r rheini'n cael

---

[5] OB3/Regeneris (2018) *Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit: Ymarfer Ymgysylltu – Adroddiad Cryno*

[6] Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol (2017) *Ymchwiliad i ddyfodol polisi rhanbarthol – beth nesaf i Gymru?*

[7] OECD (2018) *Rethinking Regional Development Policy-making*

[8] Mae gweithgareddau datblygu lleol dan arweiniad y gymuned (CLLD) yn cael eu defnyddio'n aml i dreialu dulliau newydd o gyflawni. Felly, ni fydd y broses o fonitro a gwerthuso CLLD yn rhan o'r fframwaith hwn, ond bydd yn cyfrannu ato.

eu hariannu'n ganolog neu gan feysydd polisi perthnasol. Llywodraeth Cymru ddylai fod yn gyfrifol am bennu'r blaenoriaethau cenedlaethol strategol ar gyfer gweithgareddau monitro a gwerthuso. Byddai'r rôl hefyd yn cynnwys pennu'r dangosyddion strategol i'w defnyddio yn y system monitro a gwerthuso drwyddi draw, a chyd-drefnu a hwyluso'r broses o gasglu data er mwyn sicrhau bod gweithgareddau gwerthuso ar bob lefel yn cyfrannu at y gwaith asesu yn erbyn y blaenoriaethau cenedlaethol. Byddai rôl Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnwys datblygu a rheoli gweithgareddau gwerthuso ar gyfer prosiectau a rhaglenni ar lefel genedlaethol, a rhoi cefnogaeth, cyngor a chymorth dadansoddol proffesiynol i dimau monitro a gwerthuso rhanbarthol. Er mwyn osgoi dyblygu a hybu cydweithio rhwng pob lefel yn y system, dylai rôl Llywodraeth Cymru gynnwys ychydig o waith goruchwylio/cyd-drefnu gweithgareddau gwerthuso ar bob lefel. Felly, byddai angen creu cysylltiadau â strwythurau a thimau lleol a rhanbarthol.

Byddai Llywodraeth Cymru hefyd yn gallu bod yn gyfrifol am ddwyn ynghyd Metawerthusiadau / Gwerthusiadau Thematig cyffredinol[9] o weithgarwch buddsoddi ar draws pob rhanbarth a gweithgareddau ar bob lefel.

**Ar lefel ranbarthol** – Dylai elfen sylweddol o'r gwaith monitro a gwerthuso gael ei gwneud ar lefel ranbarthol, gan ddibynnu ar allu'r rhanbarthau i gynnal gweithgareddau monitro a gwerthuso cadarn. Byddai gan bob rhanbarth ei dîm monitro a gwerthuso ei hun, a byddai'n penderfynu sut dylid gwerthuso rhaglenni rhanbarthol a lleol. Byddai hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y gweithgareddau hyn yn cael eu cyflawni. Byddai timau monitro a gwerthuso yn rhan allweddol o'r strwythur rhanbarthol, a byddai'n rhaid iddynt gyd-drefnu gweithgareddau â gwahanol sefydliadau partner. Hefyd byddai timau rhanbarthol yn gyfrifol am sicrhau bod data monitro perthnasol yn cael eu casglu gan brosiectau, ac am sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn gymesur, er mwyn bodloni gwerthusiadau rhanbarthol a chael eu casglu/dadansoddi i gefnogi gweithgareddau monitro a gwerthuso cenedlaethol. Byddem hefyd yn disgwyl i dimau rhanbarthol gefnogi gweithgareddau monitro a gwerthuso ar lefel leol, a sicrhau bod y gwaith o werthuso prosiectau cymunedol yn cael ei gyd-drefnu'n effeithiol rhwng rhanbarthau.

Ar bob lefel, byddai'n rhaid i dimau monitro a gwerthuso chwarae rôl allweddol yn y broses o benderfynu ar bolisïau a chyllid, drwy sicrhau bod penderfyniadau a chynlluniau'n cael eu llywio a'u hategu gan dystiolaeth o ansawdd da.

Yn gyntaf, dylai timau gwerthuso weithio'n agos gyda'r staff sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynllunio prosiectau, er mwyn rhoi cyngor ac arweiniad iddynt ynghylch gofynion monitro a gwerthuso perthnasol. Nod hyn yw sicrhau bod y rhaglenni sy'n cael eu darparu yn y rhanbarthau yn fwy cyfarwydd, ac yn cael eu deall yn well. Drwy ddatblygu'r lefel hon o arbenigedd, byddai timau rhanbarthol mewn gwell sefyllfa i nodi a deall anghenion lleol a rhanbarthol. Dylai'r dystiolaeth o'r gwaith gwerthuso a monitro a gesglir gan y timau hyn gael ei hategu gan dystiolaeth ymchwil addas i hybu dulliau arloesol i ddiwallu anghenion penodol – gan gynnwys defnyddio tystiolaeth a gasglwyd drwy werthuso dulliau datblygu lleol dan arweiniad y gymuned.

[9] Yn casglu a chyfuno canfyddiadau o nifer o werthusiadau unigol ar draws y system.

Yn ail, ni ddylid ystyried gweithgareddau monitro a gwerthuso yn broses “o'r brig i lawr” a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i gadw golwg ar y rhanbarthau. Yn ogystal â gwneud penderfyniadau am fuddsoddi a chyllid, dylai rhanbarthau gymryd perchnogaeth dros y gweithgareddau monitro a gwerthuso yn eu hardal. Ar yr un pryd, cydnabyddir y bydd yn bwysig bod Llywodraeth Cymru yn goruchwylio’r system ar y lefel genedlaethol, ac yn cydweithio’n effeithiol â thimau Monitro a Gwerthuso rhanbarthol i gynllunio gweithgareddau er mwyn sicrhau ansawdd, cysondeb a dylanwad gweithgareddau monitro a gwerthuso ar bob lefel.

Yn ystod y cyfnod o newid y rhaglen fuddsoddi i gyflawni ar lefel ranbarthol yn hytrach nag ar lefel genedlaethol, rydym yn rhag-weld mai'r staff/tîm cenedlaethol fydd yn gyfrifol am y gweithgareddau monitro a gwerthuso, er mwyn rhoi cyfle i ddatblygu capasiti ac arbenigedd o’r fath.

Ein hargymhelliad ni yw bod pob prosiect yn gorfod bodloni gofynion monitro, a bod system yn cael ei datblygu sy’n ei gwneud yn bosibl i roi set gyffredin o ddangosyddion ar waith ar draws y system buddsoddi rhanbarthol – ar gyfer prosiectau a rhaglenni cenedlaethol a rhanbarthol – ac i benderfyniadau rhanbarthol gael eu gwneud am ddangosyddion ychwanegol mewn ymyriadau penodol. Rydym yn awgrymu dau fath eang o ddangosydd.

Yn gyntaf, dangosyddion canlyniadau hirdymor ar lefel y boblogaeth, a fyddai’n rhoi gwybodaeth am yr amodau economaidd a chymdeithasol cyffredinol mewn rhanbarthau ac ar draws Cymru gyfan. Gyda'r dangosyddion hyn, dylai hefyd fod yn bosibl astudio data ar lefel ‘isranbarthol’ i sicrhau bod modd cynnal dadansoddiadau mwy manwl.

Yn ail, dangosyddion perfformiad a fydd yn mesur canlyniadau ac allbwn uniongyrchol pob prosiect. Drwy fabwysiadu set gyffredin o ddangosyddion perfformiad, rydym ni’n disgwyl y bydd yn bosibl cyfuno allbynnau a chanlyniadau prosiectau hyd at y lefel ranbarthol a’r lefel genedlaethol. Bydd angen i’r ail lefel o ddangosyddion perfformiad ystyried hefyd sut gellir monitro cynnydd er mwyn cyfrannu at y broses o gyflawni’r themâu llorweddol a fydd i’w gweld yn yr holl waith a ariennir.

Bydd dangosyddion perfformiad hirdymor yn cyd-fynd â fframweithiau canlyniadau strategol sy’n bodoli’n barod – yn benodol, y rheini sydd eisoes ar waith o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Ein ffordd gychwynnol o gasglu data ar gyfer y dangosyddion hyn fydd drwy arolygon o fuddiolwyr uniongyrchol a’r rheini sy’n rhoi ymyriadau ar waith, gan ystyried dulliau newydd ac arloesol o gasglu data er mwyn cynyddu cyfraddau cyfranogiad. Bydd y rhain yn cael eu rheoli ar lefel genedlaethol. Byddwn hefyd yn parhau i ystyried y posibilrwydd o gysylltu data am fuddiolwyr â setiau eraill o ddata gweinyddol (gweler y paragraff isod).

Bydd y set gyffredin o ddangosyddion yn cael ei datblygu cyn i’r rhaglen buddsoddi rhanbarthol gael ei rhoi ar waith, drwy ymgynghori â rhanddeiliaid. Y bwriad fydd datblygu set eang o ddangosyddion a fydd yn gallu cofnodi amrywiaeth o ganlyniadau. Ond, rydym yn cydnabod y posibilrwydd y gallai rhanbarthau ddatblygu prosiectau sydd ddim yn cyd-fynd â’r set gychwynnol o ddangosyddion. Felly, dylai’r

fframwaith fod yn ddigon hyblyg i ranbarthau allu cynnig dangosyddion newydd y bydd modd eu mabwysiadu fel rhan o’r set gyffredin o ddangosyddion.

**Hyd a lled gweithgareddau ar bob lefel**

Fel sy’n cael ei amlinellu uchod, rhagwelir y dylai’r gwerthusiadau gael eu cynnal ar lefel y prosiect (i asesu cyfraniad ymyriadau unigol a pha mor effeithiol ydynt) ac ar lefel y rhaglen (i asesu cyfraniad cyfuniad o ymyriadau a pha mor effeithiol ydynt). Byddai cyfle hefyd i werthuso’n thematig er mwyn bodloni anghenion strategol.

Yr atynfa gyda gwerthusiad ar lefel y rhaglen yw y dylai roi syniad inni o effaith gyffredinol arian buddsoddi rhanbarthol.

Byddai gwerthusiadau cymesur ar lefel y rhaglen ac ar lefel y prosiect yn rhoi gwybodaeth ffurfiannol werthfawr am ba mor effeithiol yw ymyriadau penodol, yn asesu cynnydd yn erbyn canlyniadau hirdymor sydd wedi'u cynllunio yn ogystal â’i gwneud yn bosibl i gynnal gwerthusiad thematig/metawerthusiad o’r cynnydd ar lefel genedlaethol. Rydym yn awyddus i gael system werthuso sy’n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i lunwyr polisïau am ba fath o ymyriadau sydd fwyaf tebygol o fod yn effeithiol. I wneud hynny, mae angen gwerthuso prosiectau unigol. Mae gwerthusiad ffurfiannol o’r prosiect hefyd yn gyfle i ddefnyddio tystiolaeth werthfawr i lywio’r broses o gyflawni’r prosiect yn ystod ei oes.

Efallai y byddai cyfle i gyfuno gwerthusiadau o rai mathau o brosiectau sydd â chynllun ac amcanion tebyg – er enghraifft, gwahanol brosiectau yn cynnig cymorth o ran cyflogadwyedd. Fodd bynnag, ni fyddwn yn gwybod a yw hynny’n bosibl nes bydd y broses o ddewis prosiectau wedi dechrau. Felly, timau monitro a gwerthuso ddylai wneud penderfyniadau strategol am grwpio prosiectau at ddibenion gwerthuso, oherwydd byddant yn deall cynnwys eu rhaglenni yn well.

Rydym yn awgrymu dechrau gyda’r rhagdybiaeth y bydd gwerthusiadau’n cael eu cynnal yn bennaf ar lefel y prosiect, a bod staff monitro a gwerthuso yn cael y dasg o ystyried cwmpas gwerthusiadau sy’n cynnwys mwy nag un prosiect. Bydd angen ystyried gwerthusiad priodol o’r effaith ar lefel y prosiect hefyd.

Fel sy’n cael ei amlinellu uchod, gallai tîm monitro a gwerthuso Llywodraeth Cymru chwarae rôl yn hyn o beth, drwy weithio ar y cyd â thimau rhanbarthol i gyd-drefnu a hwyluso gweithgareddau addas i wneud yn siŵr a) nad oes dyblygu’n digwydd o ran ymdrech/gwariant, b) bod yr holl weithgareddau monitro a gwerthuso’n ategu a chefnogi pob lefel yn y system, ac; c) bod cyfle i weithgareddau monitro a gwerthuso ar lefel prosiect unigol gyfrannu at weithgareddau monitro a gwerthuso ar draws rhaglen genedlaethol, a allai gynnwys adolygiadau thematig amrywiol fel y trafodwyd yn gynharach.

Gyda’r elfen derfynol hon, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru asesu cydlyniaeth gyffredinol rhaglenni, ac i ba raddau mae gwahanol brosiectau yn ategu ei gilydd neu y gallent gynnwys gwerthusiad o themâu penodol ar draws prosiectau – er enghraifft, i ba raddau mae’r themâu llorweddol yn cael eu rhoi ar waith ar draws y rhaglen. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen cytuno ar ddangosyddion addas a

phrosesau ar gyfer casglu a dadansoddi data o’r fath fel rhan o gynllun y systemau monitro rhaglenni.

### Cysylltu data

Byddai’r broses o gysylltu data yn golygu cysylltu gwybodaeth – a gesglir drwy’r system fonitro am y rheini sy’n cael budd uniongyrchol o arian buddsoddi rhanbarthol (er enghraifft, busnesau ac unigolion sy’n cael cymorth) – â setiau data gweinyddol a gesglir gan gyrff cyhoeddus eraill. Byddai enghreifftiau o’r setiau data gweinyddol hyn yn gallu cynnwys y Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau, a data’r Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL), yn ogystal â setiau data mawr eraill yn y dyfodol er mwyn cysylltu data am gyflogaeth, iechyd ac addysg.

Drwy gysylltu’r data hyn, byddem yn gallu deall yn well y canlyniadau hirdymor i fuddiolwyr prosiectau sy’n cael eu hariannu drwy fuddsoddiadau rhanbarthol, gan leihau’r angen am arolygon o bosibl. Hefyd, byddai’n helpu i ddefnyddio mwy ar werthusiadau effaith gwrthffeithiol sydd o ansawdd da[10], a fydd yn ein galluogi i ddeall yn well sut mae arian buddsoddi rhanbarthol yn gwneud gwahaniaeth, ac i ddatblygu gwell dealltwriaeth o’r hyn sy’n gweithio yn y gwahanol feysydd polisi.

Byddai’r union setiau data y byddem yn eu defnyddio yn dibynnu ar benderfyniadau am y fframwaith polisi ar gyfer buddsoddi rhanbarthol, ac ar y data sy’n debygol o fod ar gael. Fodd bynnag, mae angen inni fynd ati i sicrhau bod modd cysylltu data yn y dyfodol – yn benodol, sicrhau ein bod yn casglu’r data angenrheidiol am fuddiolwyr er mwyn hwyluso’r gwaith hwn.

Yn ddelfrydol, byddai’r data hyn yn cael eu casglu a’u dilysu ar lefel leol, a’r cyfrifoldeb dros storio’r data yn cael ei ysgwyddo ar lefel genedlaethol. Fel rhagamod i’r broses o gasglu’r data hyn, bydd angen sicrhau bod hysbysiadau preifatrwydd yn rhoi sylw i’r posibilrwydd o gysylltu data yn y dyfodol.

[10] Mae gwerthusiad effaith gwrthffeithiol yn ddull o gymharu, sy’n cynnwys cymharu canlyniadau o ddiddordeb ar gyfer y rheini sydd wedi elwa o bolisi neu raglen (y “grŵp triniaeth”) â’r rheini o grwpiau sy’n debyg ym mhob ffordd i’r grŵp triniaeth (y “grŵp cymharu/rheoli”), a’r unig wahaniaeth rhyngddynt yw’r ffaith nad yw’r grŵp cymharu/rheoli wedi dod i gysylltiad â’r polisi neu’r rhaglen. https://ec.europa.eu/jrc/en/research-topic/counterfactual-impact-evaluation